Sut brofiad yw bod ar reng flaen treftadaeth ar hyn o



Rhannwch eich barn trwy ein hail arolwg Calon Treftadaeth y DU. Bydd eich mewnwelediadau yn dylanwadu ar sut rydym ni a'n partneriaid yn cefnogi'r sector.

Mae ein harolwg Calon Treftadaeth y DU diweddaraf bellach ar agor. Rydyn ni'n chwilio am farn gan bobl sy'n rheoli neu'n cefnogi unrhyw fath o dreftadaeth ar draws y DU.

Mae cwestiynau'r arolwg wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym yw'r pwysicaf i chi: **gwydnwch sefydliadol, cynaliadwyedd amgylcheddol, recriwtio a staffio.**

> Nid oes unrhyw beth mwy gwerthfawr na phrofiad a safbwyntiau uniongyrchol y rhai ohonoch sy'n gweithio ar reng flaen y sector i'n helpu i ddeall beth sydd ei angen arno.
>
> *Tom Walters, Pennaeth Ymchwil, Data a Mewnwelediad yn y Gronfa Treftadaeth*

Bydd yr wybodaeth rydych chi'n ei rhannu yn helpu i lywio ein blaenoriaethau a'n dulliau ariannu, gan gynnwys bwydo i'n strategaeth 10 mlynedd newydd uchelgeisiol. Yn gyfnewid am hyn, chi fydd y cyntaf i glywed am ganlyniadau'r arolwg mewn gweminar arbennig aelodau'r panel ar 4 Hydref, a derbyn mewnwelediad gweithredadwy y gallwch ei ddefnyddio yn eich sefydliad.

Dywedodd Tom Walters, Pennaeth Ymchwil, Data a Mewnwelediad yn y Gronfa Treftadaeth: "Nid oes unrhyw beth mwy gwerthfawr na phrofiad a safbwyntiau uniongyrchol y rhai ohonoch sy'n gweithio ar reng flaen y sector i'n helpu i ddeall beth sydd ei angen arno, a sut y dylem gyfeirio ein cyllid a'n hadriolaeth."

Rydyn ni'n gwrando arnoch chi

Yn arolwg Calon Treftadaeth y DU cyntaf, dywedodd 54% o'r ymatebwyr eich bod eisiau mwy o gefnogaeth i arloesi a phrofi dulliau newydd. Fis diwethaf lansiwyd y Gronfa Arloesi Treftadaeth, sef menter beilot i gefnogi sefydliadau i archwilio, profi a thyfu syniadau gyda'r potensial i lywio dyfodol y gweithlu treftadaeth.

Fe wnaethom hefyd lansio cynnig cymorth gwytnwch ac adfer wedi'i adnewyddu ar ôl i chi ddweud wrthym yn yr arolwg cyntaf mai dyma'r mater pwysicaf sy'n wynebu'r sector ar hyn o bryd.

Rydym am sicrhau bod ein gwaith yn cael ei seilio ar farn a phrofiad pobl sy'n gweithio mewn treftadaeth.

> Mae'r mewnwelediad rydych chi'n ei rannu yn hynod o bwysig er mwyn sicrhau bod y Gronfa Treftadaeth a'n partneriaid yn gallu cefnogi'r sector treftadaeth wych hon i ffynnu.
>
> *Tom Walters*

Mae panel Calon Treftadaeth y DU wedi tyfu 25% ers ein harolwg cyntaf, ac rydym yn ddiolchgar am y mewnwelediadau rydych chi wedi'u rhannu hyd yma.

Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan fwy o bobl yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac oddi wrth bobl sy'n gweithio gyda threftadaeth anniriaethol, ac etifeddiaeth ddiwydiannol, morwrol a thrafnidiaeth. Drwy gynyddu niferoedd yn y gwledydd datganoledig, ac ar draws ehangder llawn y mathau o dreftadaeth sy'n rhan o'n sector, gallwn adeiladu panel sy'n gynrychioliadol o'n cyrhaeddiad a'n huchelgeisiau ar gyfer treftadaeth.

Ewch i wefan Calon Treftadaeth y DU i gofrestru a chymryd rhan yn ein harolwg diweddaraf.

Cipolwg ar y sector

Dros yr haf fe wnaethon ni rannu polau Curiad Calon wythnosol ar Twitter.

O wirfoddoli, ymgysylltu â'r gymuned ac amrywiaeth, i argyfwng costau byw, blinder sector a chynaliadwyedd amgylcheddol, bu dros 100 o bobl yn rhannu eu barn gyda ni bob wythnos.

Edrychwch ar yr ymatebion a rhai sylwadau dethol ar safle Calon Treftadaeth y DU.

Meddai Tom Walters: "Mae wedi bod yn wych gweld y brwdfrydedd y mae pobl wedi ymwneud â nhw gyda'n cyfres haf o arolygon barn wythnosol, a'r amrywiaeth a chryfder barn rydych chi wedi'u rhannu gyda ni.

"Edrychwn ymlaen at glywed mwy gennych chi yn ein hail arolwg mawr Pwls Treftadaeth y DU dros y mis nesaf. Mae'r mewnwelediad rydych chi'n ei rannu yn hynod o bwysig er mwyn sicrhau bod y Gronfa Dreftadaeth a'n partneriaid yn gallu cefnogi'r sector treftadaeth wych hon i ffynnu."

Cwblhewch ein harolwg Calon Treftadaeth y DU. Mae ar agor tan ddydd Llun 5 Medi 2022.



efyd mewn ...

Credyd: Hana Backland.



treftadaeth y DU

Chwilio am arloeswyr i arwain gyda ffyrdd newydd o weithio